Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Gwenllian

**Cydweli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 4UT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Gwenllian

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Gwenllian |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 137 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 101 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 23 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenionol addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 17.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 72.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Tachwedd 2018 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | Ebrill 2014 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Gwenllian yn meithrin balchder disgyblion at y Gymraeg ac yn dwysáu eu gwybodaeth am hanes lleol a thraddodiadau cenedlaethol yn hynod effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gadarn, ac maent yn hyderus i ddefnyddio technoleg i gefnogi eu dysgu. Yn gyffredinol, mae cynnydd ym medrau a mwynhad disgyblion wrth ddarllen testunau Cymraeg yn datblygu’n briodol. Mae’r naws gartrefol a chynhwysol yn cefnogi’r disgyblion i feithrin agweddau cadarn at ddysgu ac i ymgolli mewn profiadau diddorol. Maent yn mwynhau dysgu mewn ystod gyfoethog o weithgareddau wrth ‘Lifo at lwyddiant’.

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol ac mae ei weledigaeth greadigol, sydd wedi ei seilio ar hanes y dywysoges Gwenllian ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru, yn gadarn. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ehangu gorwelion a chymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau go iawn, er enghraifft yn yr ‘Wythnos Sgiliau’r Dyfodol’. Mae’r tîm ymroddedig o staff yn cydweithio’n fedrus ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau sy’n cefnogi lles a dysgu disgyblion yn effeithiol. Maent yn ennyn diddordeb disgyblion i fod yn ddysgwyr gwybodus a galluog, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i fagu hyder a chodi dyheadau ar gyfer y dyfodol. At ei gilydd, dan arweiniad cyson athrawon, mae disgyblion yn dewis beth a sut maent am ddysgu yn briodol.

Mae’r ysgol yn holi barn a meithrin perthynas gynhyrchiol a chefnogol â rheini wrth gyfathrebu’n rhagweithiol am beth mae eu plant yn ei ddysgu, ac am ddigwyddiadau ehangach yr ysgol. Mae’r arweinwyr a’r athrawon yn rhannu arferion effeithiol ac arloesol ymysg ei gilydd, a gyda darparwyr addysg yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff yr ysgol ei chefnogi gan aelodau ymroddedig o’r corff llywodraethol sy’n hyrwyddo disgwyliadau uchel y disgyblion, athrawon ac arweinwyr yn gyson. Mae trefniadau hunanwerthuso yn drylwyr ac yn cefnogi arweinwyr i ddatblygu’r ysgol ymhellach.

Mae’r disgyblion yn hapus ac yn gwrtais ’w gilydd ac oedolion. Mae eu hymddygiad parchus yn cyfrannu at eu llwyddiant ymhob agwedd o’u dysgu. Maent yn ymdrechu’n bwrpasol i ddatblygu eu medrau a’u doniau creadigol a chorfforol, sydd yn aml yn arwain at lwyddiant mewn perfformiadau a chystadlaethau amrywiol. Mae cyfraniadau’r disgyblion at ddigwyddiadau elusennol a rhyngwladol yn eu helpu i dyfu i fod yn ddysgwyr gweithgar a gofalgar.

## Argymhellion

A1 Meithrin diwylliant darllen cyfoethog er mwyn cefnogi cynnydd a mwynhad disgyblion mewn testunau Cymraeg gan awduron o Gymru

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu'r  Cwricwlwm i Gymru, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus, ac yn cymhwyso eu medrau digidol yn fedrus mewn ystod gyfoethog o gyd-destunau dysgu. Mae balchder disgyblion at y Gymraeg a’u gwybodaeth am hanes lleol a thraddodiadau cenedlaethol yn elfen nodedig o’r ysgol.

Trwy gyfleoedd dysgu bwriadus, mae bron bob disgybl yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn barchus i gyfraniadau llafar ei gilydd ac oedolion. Maent yn datblygu eu geirfa a phatrymau brawddeg yn gyflym yn unol â’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau cyfrannu at drafodaethau, er enghraifft wrth gydweithio i adeiladu llong môr ladron. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau perfformio ar lwyfan y dosbarth tu allan ac yn goslefu’n aeddfed, fel wrth gyflwyno barddoniaeth am yr hydref. Mae’r disgyblion hynaf yn cyflwyno gwybodaeth am y dywysoges Gwenllian yn aeddfed a chreadigol mewn podlediad diddorol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gyson wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gallu i adnabod seiniau a llythrennau’n unigol yn fuddiol wrth ddefnyddio ‘Ffrindiau Ffoneg’ sydd wedi ei ddatblygu’n fwriadus gan yr ysgol. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi disgyblion i adnabod geiriau a brawddegau syml yn dda, er enghraifft wrth ddarllen geiriau fel ‘y goes glec’ wrth labelu môr leidr. Gydag arweiniad staff mewn dull strwythuredig, mae llawer o ddisgyblion yn magu hyder i ddefnyddio ystod briodol o ddulliau darllen. Maent yn darllen ystod bwrpasol o destunau, sy’n cynnwys deunyddiau digidol, er mwyn casglu a choladu gwybodaeth am wahanol feysydd, er enghraifft wrth gymharu Ysgol Gymraeg Gwenllian ag Ysgol Capel Celyn. At ei gilydd, lleiafrif y disgyblion sy’n datblygu eu gwybodaeth a’u mwynhad o ddarllen wrth drafod testunau Cymraeg amrywiol gan awduron o Gymru.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr ac yn ffurfio llythrennau mewn cyfleoedd dysgu bwriadus. Maent yn datblygu eu gallu i ysgrifennu mewn ystod berthnasol o ffurfiau ac yn dewis a dethol geiriau’n ofalus i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson castell Cydweli. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn dwysàu eu gwybodaeth am iaith yn fedrus mewn ystod ddiddorol o ffurfiau ysgrifennu, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i wneud cynnydd parhaus yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn datblygu eu medrau’n gydlynus, yn aml wrth gymhwyso eu medrau digidol, wrth gyflwyno darnau estynedig. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiad papur newydd am chwedl Cantre’r Gwaelod gan gymhwyso eu medrau digidol i’w gyflwyno’n greadigol. Mae’r ddarpariaeth ddigidol eang yn cyfoethogi profiadau cyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus, sydd yn eu cefnogi i fagu hyder i siarad ac ysgrifennu’n Gymraeg a Saesneg yn gynyddol hyderus.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dwysàu eu dealltwriaeth am rifau, gwerth lle ac arian yn fedrus. Er enghraifft, maent yn cymhwyso eu medrau trin arian yn y dosbarth tu allan wrth brynu a gwerthu hufen iâ yn y parlwr. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y

mwyafrif afael gadarn ar ystod o fedrau mathemateg ac maent yn eu cymhwyso'n effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf yn dwysàu eu dealltwriaeth o'r pedair rheol yn fedrus ac yn dechrau cymhwyso eu medrau yn gynyddol hyderus. Er enghraifft, maent yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd i ffurfio siapiau rheolaidd ar y buarth yn gywir. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymhwyso eu medrau rhif ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn bwrpasol mewn ystod dda o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn casglu a dadansoddi data i ganfod gwybodaeth am allyriadau lafa o losgfynydd. Trwy amrywiaeth o brofiadau, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus i gymhwyso eu medrau rhif, er enghraifft wrth ddatrys problemau go iawn fel rhan o weithgareddau'r 'Gwener Gwario'.

Trwy amrywiaeth eang o brofiadau dysgu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn hynod effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau'n  hyderus, er enghraifft wrth dynnu hunlun gan ychwanegu testun a newid maint ffont yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn creu ac yn rhaglennu animeiddiadau yn fedrus. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn hyderus i ddefnyddio apiau a rhaglenni yn annibynnol. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio taenlenni'n  llwyddiannus wrth ymchwilio i wahanol destunau. Er enghraifft, maent yn cymharu ac yn dadansoddi prisiau bwyd mewn gwahanol archfarchnadoedd fel rhan o'u dyletswyddau yn gysylltiedig â chynnal y siop ffrwythau.

Mae medrau creadigol cadarn bron bob disgybl yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd parhaus i hyrwyddo dychymyg a chwilfrydedd disgyblion ym mhob ardal o'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dawn creadigol yn llwyddiannus; er enghraifft, maent yn creu darluniau dychmygus wrth ymateb i gerddoriaeth. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, maent yn cyfuno eu medrau rhifedd a chreadigol yn fedrus, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau naturiol i greu cyfanwaith cymesur wrth efelychu patrwm rangoli. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn cydweithio â phrifardd i ymchwilio i hanes cyfoethog yr ardal leol gan lunio cyfres o gerddi sy'n cael eu harddangos yn gelfydd mewn clymau Celtaidd wrth fynedfa'r ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus o fewn amgylchedd gynhwysol a chynhaliol ac yn arddangos balchder at eu gwaith. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Maent yn cael pob cyfle i fynegi eu teimladau ac i rannu hynny gydag oedolion o fewn yr ysgol, gan wybod bod cefnogaeth dda ar gael iddynt yn barhaus. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r maes digidol a sut i gadw'n ddiogel wrth ddysgu ar-lein, er enghraifft wrth gyflwyno clip fideo ar ffurf blog am bwysigrwydd e-ddiogelwch.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn gwrtais gan ddangos parch a gofal at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn gwrando ar gyflwyniadau yn aeddfed, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn ymrwymo i gyflawni eu tasgau yn llwyddiannus. Maent yn deall ac yn ymateb yn hynod gadarnhaol i reolau'r ysgol ac yn cymryd perchnogaeth dda o'r 'Siart Cynilo'r Dosbarth' sydd yn hyrwyddo ymddygiad ac ymroddiad parhaus. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at feithrin amgylchedd ddysgu drawiadol yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad uchel yn eu gweithgareddau gan fanteisio'n llawn ar yr ystod gyfoethog o brofiadau. Maent yn

cydweithio'n gynhyrchiol â'i gilydd ac yn dangos parch at gyfraniadau eraill, er enghraifft wrth gymharu gwahanol fathau o lochesi'r Ail Ryfel Byd. Maent yn amlygu gwydnwch yn eu parodrwydd i roi cynnig ar dasgau newydd a mwy heriol, ac yn derbyn ac ymateb yn gadarnhaol i adborth i wella eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini, ac yn awyddus iawn i gyfranogi yn y cyfleoedd eang o weithgareddau corfforol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ymwelwyr a phartneriaethau, er enghraifft gan enwogion y byd chwaraeon. Mae hyn yn annog cyfranogiad disgyblion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gampau chwaraeon, sydd yn ei dro yn arwain at lwyddiannau lleol a chenedlaethol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol ac yn cael cyfle dyddiol i'w gofnodi fel rhan o'r ddarpariaeth effeithiol. Mae disgyblion yn elwa o'r gweithgareddau garddio mewn ymweliadau cyson i'r rhandir sydd ar fferm gyfagos. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o hawliau plant ac maent yn eu hyrwyddo a'u gweithredu yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn dysgu'n dda o'u dealltwriaeth am hawl y mis sydd wedi ei gwreiddio ymhob dosbarth. Caiff y disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i atgyfnerthu eu hawliau trwy leisio barn, cynnig syniadau, parchu syniadau eraill a dysgu am wahanol agweddau o'u bywyd nhw a bywydau plant ledled y byd. Mae hyn yn cyfrannu'n gyson at yr ethos o barch a gofal sy'n nodwedd gref o'r ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau arwain yn effeithiol drwy'r gwahanol grwpiau sy'n rhoi llais iddynt, ac yn eu tro yn dylanwadu'n effeithiol ar ddatblygiadau'r ysgol. Er enghraifft, mae'r grŵp 'Llysgenhadon Gwych' yn cydweithio ag elusen leol i ailgylchu gwisg ysgol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a gofalgar sy'n awyddus i fod yn aelodau gweithredol o'u cymuned leol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn sefydlu perthynas waith ofalgar â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu gynhyrchiol a diogel. Mae staff yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn fedrus a chyda sensitifrwydd. Mae'r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol gyda'r staff yn manteisio ar bob cyfle i fodelu a chefnogi medrau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg y disgyblion.

Mae'r amgylchedd ddysgu yn ddeniadol, sy'n ennyn diddordeb disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n hynod fedrus wrth gynllunio a darparu gweithgareddau ysgogol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Maent yn cysylltu eu gwersi'n gelfydd â dysgu blaenorol y disgyblion ac yn defnyddio dulliau'n fedrus i'w cefnogi. Mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau'n sionc ac yn defnyddio medrau holi'n feistrolgar, sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt weithio'n annibynnol, mewn parau a grwpiau yn y dosbarth tu mewn a'r dosbarth tu allan. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn manteisio'n llawn i gefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol dros eu dysgu eu hunain. Ar adegau, mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i wneud penderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru wedi eu wreiddio'n gadarn. Trwy weithredu ar lais disgyblion yn greadigol, mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm dychmygus a chyfoethog er mwyn diwallu eu anghenion. Ar

draws yr ysgol, maent yn cynnig profiadau a gweithgareddau sy'n cymell brwdfrydedd disgyblion i ddysgu a herio eu hunain mewn ardaloedd dysgu perthnasol. Er enghraifft, mewn arlwy o weithgareddau 'Anni' sy'n cael eu darparu gan yr athrawon, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu medrau'n gynyddol annibynnol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn hynod effeithiol drwy'r defnydd cyson a gwerthfawr o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol. Er enghraifft, fel rhan o 'Wythnos Sgiliau'r Dyfodol', mae athrawon yn trefnu bod aelodau'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i rannu eu harbenigeddau ym myd gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac i godi eu dyheadau am yrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r cyfleoedd i hyrwyddo hunaniaeth Gymreig a hanes a diwylliant Cymru yn rhan greiddiol o holl waith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyflwyno stori y dywysoges Gwenllian i reolwr tîm pêl-droed merched Cymru yng nghastell Cydweli fel ysbrydoliaeth i'r garfan mewn twrnamaint rhyngwladol. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol a rhagori mewn chwaraeon.

Mae'r athrawon yn datblygu cyfleoedd i ymgysylltu'n rhagweithiol â rhieni wrth iddynt gefnogi medrau llythrennedd eu plant. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cyflwyno cyfres o idiomau fel 'bwrw hen wragedd â ffyn' gyda'r teuluoedd gan eu hannog i gyfleu'r ystyr trwy rannu clip digidol ar ap yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n gyson at gyfoethogi iaith lafar disgyblion mewn partneriaeth â'r rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth llythrennedd bob tro'n meithrin diwylliant sy'n annog mwynhad a chynnydd disgyblion mewn testunau darllen Cymraeg gan awduron o Gymru.

Fel rhan o ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n dwysàu eu gwybodaeth am ddewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth iddynt gyfrifo sawl gram o inswlin sydd ei angen ar berson sydd â chlefyd y siwgr. Yn ogystal, mae athrawon yn datblygu medrau digidol y disgyblion ieuengaf yn effeithiol yn y dosbarth tu allan.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn olrhain cynnydd a datblygiad disgyblion unigol a grwpiau yn fanwl. Gwnânt ddefnydd medrus o asesiadau amrywiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd bwriadus o'r wybodaeth. Maent yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol, gan sicrhau bod y disgyblion yn deall yr hyn mae angen iddynt ei wneud i symud eu dysgu ymlaen. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion fireinio'r cynnwys a datblygu eu medrau ymhellach. Mae'r disgyblion yn defnyddio dulliau penodol i amlygu agweddau da a meysydd i'w datblygu yn eu gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn trafod sut maent yn gwella eu gwaith a'r cynnydd yn eu dysgu yn hyderus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd cadarn yn seiliedig ar egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, sy'n gosod sail i gymuned ofalgar lle gall bob disgybl ddatblygu a thyfu. Mae'r pennaeth a'r tîm addysgu yn gosod disgwyliadau uchel o ran

ymddygiad ac ymrwymiad y disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda ac yn ymroi'n gydwybodol i'r ystod eang o weithgareddau dysgu. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn barchus a chroesawgar at oedolion, gan gynnwys ymwelwyr.

Mae gan y pennaeth a'r athrawon ddiddordeb arbennig, ynghyd ag adnabyddiaeth drylwyr, o anghenion bob disgybl. Maent yn gosod pwyslais cryf ar gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol y disgyblion er mwyn eu datblygu'n gyflawn. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau effeithiol i olrhain a monitro lles a chynnydd disgyblion a defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn darparu cefnogaeth drwy raglenni cefnogi pwrpasol ar gyfer y rhai sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n destun pryder. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag ysgolion cyfagos, yn cynnwys yr ysgolion uwchradd, a chydag asiantaethau allanol yn cynnwys y tîm iaith a lleferydd a'r seicolegydd addysg.

Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysgu unigol, sy'n cynnwys targedau lles a dysgu, i gefnogi disgyblion sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd ag ADY er mwyn iddynt wneud cynnydd. Mae athrawon a'r rhieni yn llunio'r cynlluniau gyda'i gilydd sy'n cefnogi'r disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth, er enghraifft y gefnogaeth ar gyfer datblygu lles disgyblion fel rhan o gyfleoedd y clwb garddio, yn gryfder.

Mae'r cyswllt a'r cydweithio rhwng yr ysgol a'r rhieni yn agos a chynhyrchiol. Mae'r gymdeithas rhieni yn weithgar ac yn trefnu gweithgareddau codi arian yn flynyddol i gynorthwyo'r ysgol i brynu adnoddau a chyfrannu at gost teithiau addysgol, fel ymweliad disgyblion â Pharc Gwledig Pen-bre. Trwy amrywiol gyflwyniadau, mae staff yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni, er enghraifft wrth rannu syniadau a gweithgareddau i gefnogi datblygiad medrau rhifedd eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft drwy eu hannog i fwyta ffrwythau a byrbrydau iach ac yfed dŵr yn rheolaidd. Trefnir ystod o gyfleoedd i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol y disgyblion drwy'r clwb chwaraeon a chyfleoedd i gymryd rhan a llwyddo mewn ystod eang o gystadlaethau chwaraeon. Yn ogystal, mae hyrwyddo medrau creadigrwydd y disgyblion yn flaenoriaeth fel rhan o gynllun hyrwyddo creadigrwydd.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd ac agweddau pwysig fel perthnasoedd iach. Mae'r disgyblion yn cael cyfle cyson i ddysgu am faterion moesegol fel gwarchod yr amgylchedd a chefnogi elusennau. Mae staff yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer codi ymwybyddiaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb ymysg disgyblion. Er enghraifft, fel rhan o ddathliadau 'Diwrnod Rhyngwladol y Menywod', mae disgyblion yn dwysáu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am bwysigrwydd cydraddoldeb trwy eu gwaith ar Malala Yousafzai. Trwy weithgareddau bwriadus mis 'Pobl Dduon', mae'r disgyblion yn dysgu am hawliau ac amrywiaeth wrth ddysgu am unigolion dylanwadol fel Betty Campbell. Mae'r ddarpariaeth eang yn eu paratoi'n effeithiol i fod yn ddinasyddion galluog, gweithgar a chyfrifol.

Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned leol a manteisia'n llawn ar gyfleoedd i gynnal gweithgareddau fel gwasanaethau a chyngherddau yn yr eglwysi a

chanolfannau lleol. Mae'r ysgol wedi ei sefydlu fel un sy'n hyrwyddo tegwch a heddwch yn effeithiol, ac mae'r dulliau sy'n meithrin ethos cadarnhaol a lles, fel y 'Gôl-geidwaid Byd-eang' a 'Cerdded Byd-eang', yn cefnogi hyn yn llwyddiannus. Mae'r ardd heddwch ar dir yr ysgol yn adnodd pwrpasol i ddisgyblion dreulio amser mewn encil tawel a heddychlon, er enghraifft drwy sesiynau lles yn ystod amser egwyl. Caiff hyn, ymysg gweithgareddau niferus eraill, eu cydnabod yn anrhydeddus wrth i'r ysgol dderbyn gwobr ryngwladol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at gynnwys eu gwersi, i ysgwyddo cyfrifoldebau a lleisio eu barn am faterion perthnasol drwy'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r llysgenhadon gwych. Mae hyn yn eu paratoi'n bwrpasol i gymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau ac i hyrwyddo eu llais mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu, ac mae'r staff yn darparu amgylchedd ofalgar a diogel i ddisgyblion. Mae trefniadau i fonitro prydlondeb a phresenoldeb cyson disgyblion yn gadarn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn hynod effeithiol ac yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u doniau mewn amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol. Mae ei weledigaeth gadarn, sydd wedi ei sylfaenu ar hanes y dywysoges Gwenllian, wedi ei saernïo'n gelfydd i feithrin balchder disgyblion at berthyn i'r ardal leol a Chymru. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi'r disgyblion i ehangu eu gorwelion a chymhwyso eu medrau mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu wrth 'Lifo at lwyddiant'.

Mae disgwyliadau uchel arweinwyr a diwylliant o gydweithio rhwng yr holl aelodau staff yn nodwedd gref o'r ysgol. Maent yn awyddus i ddatblygu eu harfer wrth gyflawni eu dyletswyddau'n fedrus. Mae arweinwyr yn annog a chefnogi staff i ymchwilio ac arbrofi â'u dulliau addysgu wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, yn dilyn trafodaethau a chaffael barn partneriaid yr ysgol, mae athrawon wedi addasu'r themâu a'r gweithgareddau dysgu er mwyn dwysáu balchder disgyblion at y Gymraeg a'u hymdeimlad o berthyn i Gymru. Yn ogystal, mae'r dull o 'Ddiwygio'r Dysgu' yn annog staff i fyfyrio a gwella eu harfer mewn amgylchedd gefnogol.

Mae staff yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn arlwy ddefnyddiol o brofiadau dysgu proffesiynol. Mae hyn yn datblygu eu medrau yn effeithiol ac yn unol â'r trefniadau rheoli perfformiad. Caiff y cyfleoedd hyn eu darparu'n fwriadus i wella'r ddarpariaeth, sydd yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. O ganlyniad i arferion effeithiol sy'n cael eu meithrin a'u datblygu o fewn yr ysgol, mae arweinwyr ac athrawon yn cyflwyno gwybodaeth i gynulleidfaoedd yn lleol ac yn genedlaethol yn gyson, er enghraifft wrth addasu'r ddarpariaeth i ddysgu ar-lein. Mae'r ysgol yn gweithredu'n hynod effeithiol fel sefydliad sy'n datblygu ac arloesi'n greadigol.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig o dda. Maent yn cynnal amrywiaeth berthnasol o weithgareddau sy'n eu cefnogi i ddatblygu'r ysgol mewn diwylliant o ymddiriedaeth gytûn. Mae'r adroddiadau hunanwerthuso yn adnabod cryfderau a'r agweddau ar gyfer gwelliant yn drylwyr. Mae'r cynllun gwella ysgol yn nodi camau gweithredu clir a thargedau heriol er mwyn mireinio a datblygu agweddau sy'n canolbwyntio yn fwyaf penodol ar

wella lles a chefnogi cynnydd disgyblion, gan gyfeirio'n gyson at flaenoriaethau cenedlaethol. Mae gan arweinwyr hanes llwyddiannus o weithredu newidiadau a chynnal gwelliannau cynaliadwy, er enghraifft wrth ymdrechu'n ddiwyd i ddatblygu'r amgylchedd ddysgu mewn hen adeilad a safle hynod gyfyngedig.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn dda ac yn gweithio'n ddygn i ddarparu addysg Gymraeg o ansawdd uchel. Maent yn derbyn gwybodaeth a chyflwyniadau gwerthfawr gan arweinwyr am waith yr ysgol, sy'n eu harfogi i gefnogi a herio'r ysgol am y safonau a'r ddarpariaeth. Trwy ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Maent yn cydweithio'n gyson â'r pennaeth wrth anelu at wella'r amgylchedd ddysgu'n barhaus, er enghraifft wrth fuddsoddi cyllid i ddatblygu gwahanol ardaloedd sy'n hybu lles emosiynol disgyblion mewn cilfach yn yr ardal allanol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus ac mae'r corff llywodraethol yn ei monitro, gan gynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion, yn effeithiol. Mae'r aelodau'r corff yn hybu diwylliant diogelu ac yn hyrwyddo darpariaeth iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus.

Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn perfformio a chystadlu mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau creadigol a chorfforol yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn aml yn llwyddo i gipio gwobrau'n gyson, fel gyda Chriced Cymru. Mae hyn yn ei dro yn meithrin hyder a datblygu doniau a medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn caffael barn rhieni am agweddau pwysig o brofiadau dysgu eu plant yn gyson, gan weithredu arnynt yn fedrus fel rhan o gynllunio'r Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft wrth ddarparu gweithgareddau i ddwysàu dealltwriaeth disgyblion o addysg ariannol. Caiff hyn ei ddatblygu'n grefftus wrth i staff fanteisio ar fedrau ac arbenigeddau rhieni a phartneriaid y gymuned mewn cyd-destunau dysgu go iawn er mwyn ennyn diddordeb a chodi dyheadau disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023